

# Abiraterone asetad a meddyginiaethau generig cyfatebol

## Gwybodaeth i'r defnyddiwr

### Pam rydw i'n derbyn y daflen hon?

Ar hyn o bryd rydych yn cael eich trin ag Abiraterone asetad. Mae'r feddyginiaeth hon hefyd yn cael ei hadnabod gyda'i henw brand Zytiga®. Tan yn ddiweddar, dim ond un gwneuthurwr a gynhyrchedd abiraterone asetad.

Mae abiraterone asetad bellach ar gael gan wneuthurwyr eraill am nad yw'n cael ei warchod gan batent mwyach. Gelwir y fersiynau o abiraterone asetad o wneuthurwyr eraill yn feddyginiaethau generig cyfatebol. Gall defnyddio meddyginiaethau generig cyfatebol fod yn fwy cost-effeithiol i'r GIG.

O fis Hydref 2022, bydd GIG Cymru yn dechrau defnyddio meddyginiaethau generig sy'n cyfateb i abiraterone asetad. Gallwch barhau i ddefnyddio'r Zytiga® sydd gennych chi nes bydd yn gorffen. Pan fydd eich presgripsiwn nesaf yn cael ei archebu, bydd meddyginiaeth generig gyfatebol i abiraterone asetad yn cael ei ddarparu.

### Sut bydda i'n derbyn fy abiraterone asetad?

O fis Hydref ymlaen, bydd y Gwasanaeth Gofal Cartref yn darparu abiraterone asetad generig yn hytrach na Zytiga®. Efallai y byddwch yn sylwi bod y tabledi a gewch yn dod mewn gwahanol ddeunydd pacio. Gall y lliw, y siâp a'r marciau ar y tabledi fod yn wahanol hefyd.

### Sut dylwn i gymryd abiraterone generig?

Y dos arferol o abiraterone asetad yw 1000mg unwaith y dydd, a gymerir ochr yn ochr â'ch prednisolon. Mae abiraterone asetad generig ar gael fel tabledi 500mg neu dabledi 1000mg. Ar gyfer y tabledi 500mg, y dos yw 2 dabled y dydd. Ar gyfer y tabledi 1000mg, y dos yw 1 dabled y dydd. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar eich meddyginiaethau yn ofalus bob amser fel eich bod yn gwybod faint o dabledi y dylech eu cymryd. Cymerwch abiraterone asetad generig o leiaf 1 awr cyn neu o leiaf 2 awr ar ôl bwyta. Peidiwch â chymryd y tabledi gyda bwyd. Llyncwch y tabledi yn gyfan gyda dŵr.

### Beth bydd y newid yn ei olygu i mi?

Oherwydd bod pob dos o abiraterone asetad generig a Zytiga® yn cynnwys yr un faint o gynhwysyn actif (abiraterone) y driniaeth a gewch am ganser eich prostad yn aros heb ei newid.

Mae gwahaniaethau bach iawn rhwng y llenwyddion (cynhwysion nad ydynt yn actif) yn yr abiraterone asetad generig a Zytiga®. Ni fyddem yn disgwyl i'r gwahaniaethau bach hyn achosi unrhyw broblemau. Mae tabledi abiraterone asetad generig yn cynnwys llai na 23mg sodiwm y dabled. Mae'r rhan fwyaf o fersiynau generig o dabledi abiraterone asetad yn cynnwys tua'r un faint o lactos â Zytiga®.

Fel gyda phob meddyginiaeth, os byddwch yn profi unrhyw sgil-effeithiau o'ch triniaeth, dylech roi gwybod i'ch meddyg, eich nyrs neu eich fferylllydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ap Cerdyn Melyn (i'w lawrlwytho o [Google Play](#) neu [Apple App Store](#)) neu'r [wefan](#) i roi gwybod am sgil effeithiau.

Storiwch tabledi abiraterone asetad generig yn yr un ffordd â'ch tabledi Zytiga®; nid oes angen unrhyw amodau storio arbennig arnynt.

## Beth yw abiraterone asetad a sut mae'n cael ei ddefnyddio?

Mae abiraterone asetad yn feddyginiaeth sy'n helpu i leihau lefelau'r testosteron yn eich corff a all arafu twf cancer y prostad.

## Cyngor pellach

Os oes gennych ymholiadau pellach am abiraterone asetad neu feddyginiaethau generig cyfatebol, trafodwch y rhain gyda meddyg, nyrs neu fferyllydd yn nhîm yr ysbyty sy'n gyfrifol am eich gofal.

Mae gwefannau **Cancer Research UK** a **Cymorth Cancer Macmillan** mae safleoedd yn rhoi gwybodaeth am abiraterone asetad a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl sy'n byw gyda chanser y prostad:

<https://www.cancerresearchuk.org/about-cancer/cancer-in-general/treatment/cancer-drugs/drugs/abiraterone>

<https://www.macmillan.org.uk/cancer-information-and-support/treatments-and-drugs/abiraterone>

Mae'r daflen hon yn seiliedig ar waith blaenorol gan Ganolfan Ganser Felindre

This leaflet is also available in English. Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.